Geiriau sy'n gweu

Stori Cristina Bautista, un o frodorion Nasa o Colombia

Testun: Vilma Almendra Quiguanás

Lluniau: Violeta Rozental Almendra

Geiriau sy'n gweu

Stori Cristina Bautista, un o frodorion Nasa, Cauca, Colombia

Er cof am
Cristina Bautista
1989 - 2019

Testun - Vilma Almendra Quiganás

Lluniau - Violeta Kiwe Rozental Almendra

Cyfieithiad gan Osian Morris a Claire Owen

Cyflwyniad gan Robin Llewellyn

Amser maith yn ôl roedd y tiroedd a oedd yn weladwy o fynyddoedd Tacueyo yn perthyn i bobl Nasa. Mewn gwirionedd y bobl oedd yn perthyn i'r tir oherwydd doedd neb yn berchen ar y tir. Os ewch ati i chwilio am Tacueyo ar fap, fe welwch taw yn rhanbarth Cauca yw yn ne-orllewin gwlad o’r enw Colombia. Mae'n agos i dref fwy o'r enw Toribio, lle mae llawer o'r tai wedi’u haddurno gyda lluniau sy’n adrodd straeon o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Ym 1536, pan oresgynnodd y Sbaenwyr, meddiannwyd yr iseldiroedd ffrwythlon a gwthiwyd brodorion Nasa ymhellach i fyny at diroedd salach y mynyddoedd.

Y Sbaenwyr wnaeth ddechrau galw brodorion Nasa yn 'indiaid'. Enw a gafodd ei ddefnyddio gan y tirfeddianwyr i ddod, am flynyddoedd maith. Wedyn yn Tacueyo, hanner can mlynedd yn ôl, fe sefydlwyd 'cymdeithas frodorol rhanbarth Cauca'. Pwrpas y gymdeithas oedd gwarchod ei thiriogaeth heb ddefnyddio trais ac adennill peth o’r hen diriogaeth a rheoli ei thiroedd gan gadw at y gwerthoedd sydd wedi goroesi gan y brodorion o’r mynyddoedd.

Dyluniwyd baner y gymdeithas gyda’r lliwiau coch a gwyrdd. Mae’r gwyrdd yn cynrychioli’r ddaear, a'r coch yn cynrychioli’r bobl a laddwyd wrth geisio gwarchod eu tiroedd. Nawr roedd yn bosib ail-feddiannu’r tiroedd ffrwythlon a chynllunio i lywodraethu eu hunain a sicrhau ei dyfodol.



Mae'r llyfr yma’n adrodd hanes Cristina Bautista. Cafodd Cristina ei geni yn Tacueyo , tref sy’n debyg i Flaenau Ffestiniog, yng nghanol mynyddoedd. Roedd y Sbaenwyr yn chwilio am 'El Dorado', dinas aur mewn llyn chwedlonol. Erbyn heddiw mae cyrchoedd arfog yn lladd unrhyw un sy’n aros yn nhiroedd Nasa sydd heb eu gorfodi i adael. Maent yn dwyn aur o'r mynyddoedd ac yn cludo cyffuriau i'r arfordir ac ymlaen i Unol Daleithiau America.

Mae'r brodorion yn gwarchod eu tiroedd heb ddefnyddio arfau. Mae'r gymuned yn ethol gwarchodwyr ac yna’n cyflwyno ffyn defod iddynt , er mwyn gwarchod eu hunain. Yn ôl y chwedl roedd gan yr awdurdod cosmig cyntaf ffon aur, yr ail ffon arian, y drydedd ffon gopr a'r pedwerydd (oedd yma ar y ddaear) ffon o bren palmwydd. Awdurdod nefolaidd oedd y tri cyntaf, oedd yn bodoli yn y mynyddoedd a llynnoedd, ac yn dangos eu hunain trwy daranau. Roedd y pedwerydd yn dangos ei hun trwy awdurdod a gweithredoedd synhwyrol y 'Walas' (Tywysydd ysbrydol sy’n debyg i siaman) a’r Neehwe'sx (Arweinwyr traddodiadol etholedig).

Mewn llawer o'r lluniau fe welwch Cristina efo'i ffon ddefod a'i sgarff coch a gwyrdd, yn gweithredu er lles ei chymuned.

Mae hi'n byw eto yn lluniau Violeta Kiwe (6 oed) ac wrth i chi ddarllen bydd hi'n byw eto efo chi.



Rhagair

Tiriogaeth yw gwarchodfa Tacueyo lle sefydlwyd Cyngor Brodorol Rhanbarth Cauca hanner can mlynedd yn ôl, lle mae olion troed gwrthsafiad a hunanlywodraeth trigolion Nasa i'w gweld. Heddiw mae troseddwyr rhyngwladol, yn ogystal â throseddwyr sy'n cludo cyffuriau wedi cyrraedd y rhanbarth, trwy gymryd bywydau a dwyn nwyddau cyffredin y gymuned. Y bobl sy'n sefyll yn eu herbyn sydd yn y perygl mwyaf, boed Colombia mewn cyfnod rhyfel neu heddwch.

Cafodd Cristina Baustista Taquinas ei geni ar 12fed o Dachwedd 1989, yn nhŷ ei nain yn Tacueyo; ei rhieni oedd Dioselina Taquinas ac Uriel Bautista. Hi oedd y plentyn cyntaf i gael ei geni i'r teulu efengylaidd.

Ymhen amser cafodd ei brawd, Eduar a'i chwiorydd Deyanira, Viviana ac Amal eu geni. Cafwyd plentyndod hapus yn debyg i blant eraill, er gwaethaf tlodi'r theulu.

Ers pan oedd hi'n ifanc iawn, byddai'n dod adre o'r feithrinfa yn cario ei brawd ar ei chefn ac efo'i chwaer yn gafael yn ei llaw.

Er mai dim ond un set o ddillad sbâr oedd ganddi, roedd hi'n llwyddiannus ac yn gweithio'n galed iawn yn yr ysgol. Ond pan oedd hi ym mlwyddyn pump, gofynnodd yr ysgol am hanner pwys o reis i dalu am ei haddysg. Ond nid oedd gan ei theulu unrhyw reis i'w sbario felly doedd ganddi ddim dewis ond tynnu allan o'r ysgol. Ers roedd hi'n blentyn, dysgodd i'w brawd a'i chwiorydd, sut i werthu popgorn er mwyn cynnal eu hunain.

Pan oedd hi'n ddeuddeg mlwydd oed, cafodd hi swydd yn Corinto, tref yn y gwastatiroedd. Yma fe ddysgodd gwneud crysau a sgertiau gyda pheiriant gwnïo. Roedd yn arbed yr arian nes iddi fynd adre, a byddai'n rhoi'r arian i'w thad, er mwyn iddo allu prynu peiriant gwnïo iddi hi. Wedyn roedd hi'n gallu gwneud dillad i'w mam a'i chwiorydd.

Ond roedd hi'n breuddwydio am gael prynu peiriant gwnïo mwy, felly pan roedd hi'n dair ar ddeg, aeth i weithio i ddinas Cali. Yno aeth pethau o chwith iddi, ceisioddperchennog y cwmni ei threisio, ond yn ffodus, gyda chymorth ffrind, llwyddodd i ddianc a chafodd hyd i swydd arall mewn rhan arall o'r ddinas.

Roedd y swydd newydd yn golygu gofalu am yr henoed. Roedd rhai yn ei charu fel eu merch eu hunain tra roedd eraill yn gas iawn wrthi. Ar ôl llwyddo i gynilo miliwn pesos roedd ei mam yn ei hannog i brynu peiriant gwnïo. Ond anfonodd yr arian adre at ei theulu i brynu llo a daliodd ati i weithio yn Cali er mwyn helpu ei theulu.

Cafodd waith gyda hen ddynes oedd yn fodlon ei chynnal yn ystod ei hastudiaethau, a graddiodd o goleg Santa Librada. Estynnwyd gwahoddiad i'w rhieni, a soniodd wrthynt ei bod yn awyddus i fynd i'r brif ysgol.

Tra roedd hi'n astudio yn y brifysgol, roedd hi hefyd yn gweithio ar stondin ffrwythau yn Cali. Dysgodd yn gyflym a llwyddodd i brynu'r busnes. O fewn dim o amser roedd y busnes yn ehangu a daeth ei chwaer i helpu gwerthu raspados, diod a wneir o gymysgu rhew a sudd ffrwythau.

Roedd un dyn yn genfigennus iawn o'i llwyddiant. Galwodd yr heddlu a dygwyd popeth, difethwyd y stondin er gwaethaf ei gwaith caled a'i gonestrwydd. Torrodd ei chalon ac achosodd hyn iddi ddisgyn ar ei hôl hi gyda'i gwaith coleg.

Gofynnodd ei thad iddi anghofio am y brifysgol a dychwelyd adref. Doedd hi ddim eisiau mynd. Cafodd swydd arall, ond roedd hi'n llwgu cymaint nes iddi golli ei chof a dechreuodd colli ei gwallt. Bob hyn a hyn byddai ei mam yn dod i'w gweld, ac yn dod â chaws a llaeth i'w helpu.

Ymhen amser roedd ei hastudiaethau yn gwella. Roedd yn canolbwyntio ar unigolion oedd yn dioddef oherwydd gwrthdaro arfog ac ar drais yn erbyn merched. O ganlyniad i lawer o waith caled, graddiodd o'r brifysgol fel gweithiwr cymdeithasol, ac enillodd ysgoloriaeth i astudio hawliau dynol yn Sbaen.

Ei nod oedd helpu merched i drefnu a gwarchod eu bywyd o fewn cymuned Nasa. Doedd hi ddim gallu gweld ei hun yn priodi ac yn magu plant. Nac ychwaith yn gaeth i'r tŷ. Un o ei hoff bethau oedd teithio; unwaith aeth â'i rhieni ar daith hyd at arfordir y Caribî a dinasoedd Cartagena, Baranquilla a Santa Marta.

Roedd y ffaith taw tref gyfagos, Toribio, oedd â'r ail nifer fwyaf o achosion trais yn erbyn merched, yn peri llawer o bryder iddi. Gan ddefnyddio ei harian ei hun, aeth ati i geisio cyfiawnder. Gwnaeth ei gorau glas i rannu ei phrofiadau gyda merched eraill.

Dysgodd wrth wrando, a chwaraeodd ran allweddol wrth atgyfodi mudiad merched Nasa, 'Hilando Pensamiento' – Gwehyddu ein Meddyliau, gan roi pwyslais ar gynnwys pobl ifanc yn y trafodaethau. Dywedodd "Rydw i wedi troedio ein tiriogaeth, ac oherwydd yr ofn, mae rhai pethau nad ydynt yn cael eu trafod, rhag ofn datgelu enwau'r unigolion sy'n eu trafod. Rydw i eisiau i ferched cael eu clywed, i uno a threfnu er mwyn diogelu eu hawliau. Mae gormod o lawer yn dioddef."

Oherwydd ei gwaith anhunanol a'i sylw arbennig i ferched, gofynnwyd iddi a fyddai hi'n sefyll fel ymgeisydd i'r Neehwe'sx (Arweinydd traddodiadol hunanlywodraeth cymuned Nasa). Adeg yr etholiad, enillodd gyfle i fod yn un o chwech o arweinyddion gwarchodfa Tacueyo.

Roedd yn sefyll allan fel arweinydd oherwydd ei hymroddiad teimladwy tuag at y gymuned. Byddai'n cydgerdded gyda gwarchodwyr brodorol ac yn cynorthwyo pobl ifanc i ddianc rhag cyffuriau, yn ogystal ag ysgogi merched i dynnu at ei gilydd er budd cyfiawnder.

Roedd nifer o'r arweinwyr eraill yn meddwl gormod o'u hunain. Roeddynt yn gwrthod rhoi cydnabyddiaeth iddi, gan ei bod hi'n ddynes, yn gristion ac yn dawel ei lleferydd; er ei bod yn ddiffuant dros gyfleoedd teg i bawb. Roedd eraill yn ymosod arni am weld bai ar rai yn y gymuned oedd yn cydymffurfio i gynhyrchu a dosbarthu cyffuriau megis, cocên a marijuana. Dyma brif achos y trais yn erbyn y gymuned. Dywedwyd wrthi un tro - "Tafla dy ffon i ffwrdd os nad wyt ti yn ei ddallt! (y ffon ddefod)

Roedd hi'n credu'n gryf dros yr hyn oedd hi'n sefyll drosto a daliodd ati i ymgyrchu yn erbyn y cyrchoedd arfog a'r cyffuriau. Roedd yn llefain dros bob gwarchodwr brodorol a laddwyd ac a safodd yn erbyn pob bygythiad a chasineb. Yn y nifer fawr o angladdau a gynhaliwyd, defnyddiwyd ei geiriau fel cri dros ryddid: "Os siaradwn, maen nhw'n ein lladd ni. Os cadwn yn dawel, maen nhw'n parhau i'n lladd ni. Felly siaradwch."

Roedd yr arweinwyr brodorol yn destun bygythiadau cyson. Ar 28 Hydref 2019, gwibiodd cerbyd heibio'r porth cymunedol yn Tacueyo, gan saethu allan o'r ffenestri wrth symud, ond ni anafwyd neb.

Y diwrnod wedyn, 29 Hydref, aeth Cristina gyda'r gwarchodwyr brodorol, gyda dim ond eu ffyn defod yn arfau, i chwilio am y dynion arfog oedd yn gyfrifol am y weithred yn erbyn ei chymuned. Yn hollol annisgwyl, neidiodd y dynion arfog allan gan saethu pob un ohonynt yn farw: Cristina, Asdrubal Cayapu, Eliodoro Finscue, Jose Gerardo Soto a James Wilfredo Soto.

Mae brodorion Nasa yn cymharu angladdau'r rhai sy'n gwrthsefyll trais, â hau hadau, dychwelyd y rhai a aberthwyd i'r ddaear, er mwyn geni mwy fydd yn fodlon sefyll dros fudd eu cymuned ac er budd y ddaear.



I'r rhai ohonom oedd yn ei hadnabod, yr hyn â'n tarodd oedd prydferthwch ei gwên, oedd yn blodeuo yng ngwyneb trallod.

“Mae'r "fenyw" yn holl bwysig yn ein gweledigaeth o'r byd. Mae rhaid i ni ddysgu gydymffurfio gyda'r weledigaeth yma.”

Cristina Bautista Taquinas
(12 o Dachedd 1989 – 29 Hydref 2019)